# CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED

# GYRRWR CERBYD HACNI/HURIO PREIFAT

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 / Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847 (fel y'i diwygiwyd)**

***Darllenwch y Polisi Ymgeisio am Drwydded Tacsi cyn llenwi'r ffurflen hon i sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol i ddod yn Yrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.***

Cwblhewch y ffurflen hon mewn prif lythrennau a rhowch diciau lle bo'n briodol. Sylwch NA fydd y ffurflen hon yn cael ei phrosesu os na chwblheir POB un o'r adrannau isod.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Datganiad Polisi ynghylch Perthnasedd Euogfarnau a gallwch ddod o hyd iddo ar wefan y Cyngor neu drwy e-bost gan yr Adran Trwyddedu. **Dylech ddarllen y ddogfen hon cyn cwblhau eich cais.**

**Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This form is also available in English**

## 1. Manylion y Drwydded Gyfredol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Math o Drwydded: | Gyrrwr Cerbyd Hacni: ☐ | Gyrrwr Hurio Preifat: ☐ | |
| Rhif Bathodyn: | | | |

## 2. Manylion yr Ymgeisydd

| | |
|---|---|
| Enw Llawn yr Ymgeisydd: | |
| Cyfeiriad yr Ymgeisydd: | |
| Cod Post: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad Geni: | DD/MM/BBBB | Rhif Yswiriant Gwladol: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif Ffôn Sefydlog: | | Rhif Ffôn Symudol: | |
| E-bost: | | | |

| | |
|---|---|
| Rhowch fanylion y Gweithredwr Hurio Preifat yr ydych yn gweithio iddo (os oes un) | Nodwch enw'r Gweithredwr |

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi wedi treulio 6 mis di-dor neu fwy y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar unrhyw adeg ers eich geni? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| Os ydych, rhowch fanylion: | | |

## 3. Manylion Gyrru ac ati

| | |
|---|---|
| Rhif Trwydded Yrru'r DVLA | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cawsoch drwydded yrru lawn y DVLA: | DD/MM/BBBB |

## 4. Gwiriadau Treth

**Mae'r adran hon ond yn berthnasol os ydych yn gwneud cais ar neu ar ôl 4 Ebrill 2022.**

Mae'r Ddeddf Cyllid 2021 wedi cyflwyno gwiriadau treth fel rhan o'r ceisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a hurio preifat a gweithredwyr hurio preifat. **Ni fyddwch yn cael trwydded os na fyddwch yn darparu Cod Gwiriad Treth.**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cod Gwiriad Treth** | | | | | | | | | |

## 5. Datgan Euogfarnau Blaenorol ac ati

Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd y Cyngor yn cynnal gwiriad o'ch Tystysgrif Datgeliad Manylach trwy Wasanaeth Diweddaru Ar-lein y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Drwy ddarparu'r manylion isod, rydych yn rhoi caniatâd i Wasanaeth Trwyddedu CBS Merthyr Tudful gynnal unrhyw wiriadau sydd eu hangen ar Wasanaeth Diweddaru'r DBS er mwyn sicrhau bod eich Tystysgrif yn dderbyniol.

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi ar hyn o bryd yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru Ar-lein y DBS? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n caniatáu i'r Cygnor wirio'ch Tystysgrif trwy'r Gwasanaeth Diweddaru fel rhan o'ch cais adnewyddu? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| Os ydych, rhowch rif eich Tystysgrif gyfredol yma: | | |

Os nad ydych yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r DBS, neu os nad ydych yn caniatáu i'r Cyngor gynnal gwiriad o'ch Tystysgrif, yna mae'n rhaid ichi gwblhau cais am Dystysgrif Datgeliad Manylach newydd. Bydd rhagor o fanylion am hyn yn cael eu darparu i chi unwaith y bydd y Cyngor wedi derbyn eich cais.

## 6. Datganiad

Gallai eich trwydded gael ei hatal neu ei dirymu os nad ydych yn onest wrth gadarnhau'r datganiadau canlynol.

Ticiwch bob blwch os ydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

A. ☐ **Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi derbyn euogfarn, rhybudd na cherydd am droseddu na gyrru, ers imi gael fy nhrwydded ddiwethaf (gan gynnwys pwyntiau'r DVLA).** Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw euogfarnau neu rybuddion, hyd yn oed os ydynt wedi dod i ben. Gall methu gwneud hynny fod yn drosedd.

B. ☐ **Rwy'n caniatáu i CBS Merthyr Tudful wirio fy Nhystysgrif Datgeliad Manylach trwy Wasanaeth Diweddaru Ar-lein y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**

C. ☐ **Rwyf wedi darllen y Polisi Preifatrwydd Gwiriad Safonol/Manylach ar gyfer ymgeiswyr sef** https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies, ac rwy'n deall y modd y bydd y DBS yn prosesu fy nata personol a'r opsiynau sydd ar gael i mi ar gyfer cyflwyno cais.

D. ☐ **Rwy'n cadarnhau nad wyf yn destun ymchwiliad gan yr heddlu nac asiantaeth arall mewn perthynas ag unrhyw drosedd yn ymwneud â budd-daliadau, tollau neu fewnfudo.**

E. ☐ **Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi datblygu cyflwr meddygol ers fy nghais diwethaf am drwydded.**

F. ☐ **Rwy'n cadarnhau bod gennyf yr hawl i weithio yn y DU ac rwy'n deall y bydd gofyn i mi ddarparu dogfennaeth i brofi hyn.****

G. ☐ **Byddaf yn darllen ac yn cydymffurfio â'r Is-ddeddfau ac unrhyw Amodau sydd ynghlwm wrth roi'r drwydded.**

H. ☐ Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen **canllawiau'r** CThEM ynghylch cofrestru fy ngwiriad treth. Trwy ddarparu fy Nghod Gwirio Treth gan y CThEM, rwy'n cydsynio i'r Cyngor gadarnhau gyda'r CThEM fy mod wedi cynnal gwiriad treth.

I. ☐ **Rwy'n deall os byddaf yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll neu'n hepgor unrhyw fanylyn perthnasol wrth roi'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y cais hwn, y gallaf gael fy erlyn o dan adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.**

Os na allwch gadarnhau unrhyw un o'r datganiadau hyn, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r manylion llawn i'r Tîm Trwyddedu gyda'r ffurflen gais hon.

| | | |
|---|---|---|
| Llofnod: | Dyddiad: | DD/MM/BBBB |
| Printiwch eich Enw Llawn: | | |

* Rhaid datgelu unrhyw euogfarnau neu rybuddion sydd wedi'u disbyddu fel yr eglurir yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 fel y'i diwygiwyd.

** Bydd eich hawl i weithio yn y DU yn cael ei wirio fel rhan o'ch cais am drwydded. Gallai hyn gynnwys yr Awdurdod Trwyddedu yn gwirio'ch statws mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'n rhaid i chi felly ddarparu dogfen neu gyfuniad o ddogfennau a nodwyd fel rhai sy'n addas ar gyfer y gwiriad hwn. Mae'n rhaid ichi ddod â'r ddogfen/dogfennau gwreiddiol, fel Pasbort neu Hawlen Breswylio Fiometrig yn unol â'r hyn a nodir yn ein canllawiau cyhoeddedig, er mwyn cynnal y gwiriad. Bydd y ddogfen/dogfennau yn cael eu copïo a bydd y copïau hynny'n cael eu cadw gan yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd y ddogfen/dogfennau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd atoch.

Os oes cyfyngiadau ar hyd yr amser y cewch weithio yn y DU, bydd eich trwydded yn terfynu'r un pryd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y gwiriad yn cael ei ailadrodd bob tro y byddwch yn ymgeisio i adnewyddu neu ymestyn eich trwydded. Os, yn ystod y cyfnod hwn, y cewch eich gwahardd rhag cadw trwydded am nad ydych wedi cydymffurfio â chyfreithiau mewnfudo'r DU, bydd eich trwydded yn terfynu a bydd yn rhaid i chi ei dychwelyd i'r Awdurdod Trwyddedu - mae methu gwneud hyn yn drosedd.

**Diogelu Data**

CBS Merthyr Tudful yw'r rheolydd data ar gyfer y broses dan sylw. Bydd y wybodaeth amdanoch ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i brosesu'ch cais am drwydded. Wrth brosesu eich cais, mae'n bosibl y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng adrannau'r Cyngor, asiantaethau eraill a'r cyhoedd lle bo angen a/neu yn unol â'r statud. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i brosesu eich gwybodaeth yn deg. Mae'n rhaid i'r wybodaeth sydd gennym fod yn gywir, yn gyfredol, yn cael ei chadw ddim ond cyhyd ag y bo angen, ac yn cael ei rhannu ddim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny. Mae gennych hawl gyfreithiol i gael manylion y wybodaeth amdanoch sydd yn ein meddiant. Os hoffech chi weld y polisi, y wybodaeth a'r hawliau mewn perthynas â Diogelu Data yn llawn, ewch i wefan CBS Merthyr Tudful.

**Cofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau a Dirymiadau (NR3)**

Pan fyddwn yn derbyn cais am drwydded, byddwn yn gwirio manylion yr ymgeisydd ar y gofrestr i gadarnhau nad oes unrhyw gofnod eu bod wedi'u dirymu neu'u gwrthod rywle arall.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ychwanegu manylion sylfaenol am yrwyr pan fyddwn yn gwrthod cais neu'n dirymu eu trwydded. Mae'r manylion a geir ar y gofrestr wedi'u cyfyngu i wybodaeth a fydd yn helpu i adnabod unigolyn i ryw raddau o gywirdeb. Nid yw'r gofrestr yn cynnwys unrhyw resymau am wrthod cais neu ddiddymu trwydded.